Rhif: **WG22491**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Cwricwlwm Cymru

### Diwygio Meysydd Dysgu (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol) a rhaglenni astudio (Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg) – y Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4

Cam 1: Llythrennedd a rhifedd

Dyddiad cyhoeddi: **Hydref 2014**

# Cwricwlwm Cymru

## Diwygio Meysydd Dysgu (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol) a rhaglenni astudio (Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg) – y Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4

Cam 1: Llythrennedd a rhifedd

**Cynulleidfa** Consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion, plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, undebau athrawon, aelodau o'r cyhoedd a chyrff ac unigolion eraill sydd â diddordeb.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen ymgynghori, *Cwricwlwm Cymru – Diwygio Meysydd Dysgu (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol) a rhaglenni astudio (Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg) – y Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4*.

**Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Claire Habberfield
Y Tîm Deddfwriaeth
Yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Rhadbost NAT 8910
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3BR

e-bost: CurriculumforWales@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Dogfennau cysylltiedig** *Cwricwlwm Cymru – Diwygio Meysydd Dysgu (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol) a rhaglenni astudio (Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg) – y Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4* (2014)

ISBN digidol 978 1 4734 2429 6
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22491

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**Crynodeb o ymatebion** **3**

**Y camau nesaf** **18**

**Atodiad: Rhestr lawn o'r ymatebwyr** **19**

# Cyflwyniad

Ar 26 Mawrth 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn rhan o gynigion ehangach ar gyfer newidiadau i drefniadau cwricwlwm ac asesu, gyda'r nod o gryfhau dysgu ac addysgu llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion. Diben yr ymgynghoriad oedd canfod safbwyntiau rhanddeiliaid ar y Meysydd Dysgu newydd arfaethedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol, yn ogystal â'r rhaglenni astudio ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 i 4 mewn Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg. Mae'r rhain yn seiliedig ar ddisgwyliadau o un flwyddyn i'r llall i ategu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) ac fe'u datblygwyd gyda'r nod o gynnwys pob dysgwr.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Mehefin 2014. Caniataodd y broses ymgynghori i ymatebion gael eu dychwelyd yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru, neu i gael eu cwblhau'n electronig a'u hanfon i flwch negeseuon e-bost penodol (curriculumforwales@cymru.gsi.gov.uk). Cynhaliwyd cyfres o bedwar digwyddiad ymgynghori ledled Cymru hefyd (Caerdydd ar 6 Mai; Llanelli ar 16 Mai; Casnewydd ar 21 Mai; Llandudno ar 3 Mehefin) lle gwahoddwyd rhanddeiliaid i drafod y cynigion yn fanwl a chynnig adborth i Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Hefyd, cynhaliwyd digwyddiadau gweithdy penodol ar y Cyfnod Sylfaen a mathemateg.

Yn rhan o'r broses ymgynghori, lluniwyd holiadur yn cynnwys 13 o gwestiynau caeedig, gyda chyfleoedd i ychwanegu sylwadau, ac un cwestiwn arall penagored. Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 172 ymateb ar y profforma a bennwyd a derbyniwyd 26 cyflwyniad testun pellach hefyd. Aeth tua 140 o randdeiliaid i'r digwyddiadau ymgynghori gan gyfrannu at drafodaethau ar y cynigion. Cofnodwyd y trafodaethau hyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol ac adlewyrchir materion perthnasol yn y crynodeb hwn o ymatebion hefyd.

Ceir rhestr lawn o ymatebwyr yn yr Atodiad (gweler tudalen 19).

## Crynodeb o ymatebion

**Cwestiwn 1: Un ffordd o gyflwyno'r datganiadau am ddisgwyliadau ychwanegol y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio yw eu hymgorffori'n uniongyrchol yn natganiadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh). Dyna a wnaed yn achos y Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol a'r rhaglen astudio mathemateg. Ydych chi'n cytuno?**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 157 |
| Anghytuno | 4 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 |
| Dim ateb | 5 |
| N=172 | |

Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn, yn yr ymatebion i'r cwestiwn caeedig ac yn y sylwadau ategol. Roedd mwyafrif y sylwadau yn dadlau bod un ddogfen yn llawer haws ei defnyddio ac y byddai'n helpu ysgolion gyda chynllunio a gweithredu.

**Cwestiwn 2: Ffordd arall o'u cyflwyno yw gosod y sgiliau Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg i'w hasesu o un flwyddyn i'r llall fel adran ar wahân i ddilyn adran y FfLlRh. Ydych chi'n cytuno?**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 17 |
| Anghytuno | 71 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 15 |
| Dim ateb | 69 |
| N=172 | |

Prin oedd y gefnogaeth i'r cynnig amgen hwn, fel y dynodwyd gan yr ymatebion i'r cwestiwn caeedig (na atebwyd gan nifer fawr). Cadarnhawyd y diffyg brwdfrydedd tuag at yr opsiwn hwn gan y sylwadau a wnaed a oedd yn cefnogi'r awgrym y dylai'r cynnwys fod mewn un lle.

**Cwestiwn 3: Mae rhanddeiliaid wedi nodi, pe bai'r Ystod yn cael ei rhannu'n ddisgwyliadau ar gyfer blwyddyn benodol o'r Gorchmynion cwricwlwm cenedlaethol cyfredol, y gallai hyn arwain at gulhau'r cwricwlwm a gorfodi llwybr mwy penodol. Cynigir ailenwi'r datganiadau Ystod presennol yn 'Ystod o brofiadau' i ddisgrifio amrywiaeth y cyd-destunau y dylai dysgwyr eu profi. Ydych chi'n cytuno?**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 105 |
| Anghytuno | 21 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 34 |
| Dim ateb | 12 |
| N=172 | |

Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn ac adlewyrchwyd hyn yn y sylwadau a wnaed. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau y byddai'n anghywir rhagnodi'r cynnwys yn ormodol. Ar yr un pryd, gwnaed y sylw ganddynt fod perygl y gallai rhai athrawon 'addysgu'n unol â'r disgwyliad', neu 'addysgu'n unol â'r prawf'. Mynegwyd y safbwynt y dylid rhoi mwy o gwmpas i athrawon a llai o gyfyngiadau.

Fodd bynnag, awgrymodd nifer fach o safbwyntiau na ddylai'r pwyslais ar lythrennedd a rhifedd fod ar draul pob agwedd arall ar y cwricwlwm. Teimlwyd bod perygl y gallai'r cwricwlwm fod yn rhy gul os mai hwn oedd ei unig ganolbwynt. Fel opsiwn arall, awgrymwyd y gellid gwneud sgiliau'n eglur ac y dylai ysgolion benderfynu ar gynnwys.

Roedd y materion allweddol a amlygwyd yn yr ymatebion fel a ganlyn.

**Egwyddor**

- Y dylid ystyried yr 'Ystod o brofiadau' fel ffordd o gyfoethogi yn hytrach na chulhau'r cwricwlwm; ni ddylai ysgolion gyfyngu eu hunain i'r hyn a amlinellir yn yr 'Ystod o brofiadau'.
- Bod perygl y byddai ysgolion yn colli 'creadigrwydd a hwyl' pe bai'r 'Ystod o brofiadau' yn rhy ragnodol.
- Na ddylid cael gwared ar swyddogaethau profiadau ehangach, fel cerddoriaeth, drama a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau ymarferol oherwydd y golled ddiwylliannol a fyddai'n deillio o hynny.
- Y dylai'r 'Ystod o brofiadau' a ddiffinnir yng Nghyfnod Allweddol 2 adeiladu ar y rhai a ddiffinnir yn y Cyfnod Sylfaen.
- Y dylid hyrwyddo amgylchedd cyfoethog o ran iaith fel rhan annatod o'r 'Ystod o brofiadau' a ddiffinnir ar gyfer bob blwyddyn.
- Bod potensial i'r bwlch rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3 ehangu o ganlyniad i'r 'Ystod o brofiadau' arfaethedig.
- Y dylid cynnwys profiadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth, â phwyslais ar gyfoeth naturiol, gan gynnwys cyfleoedd i gael mynediad at yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy a'u deall, yn yr 'Ystod o brofiadau'.

**Gweithrediad**

- Y byddai'n ddefnyddiol cael enghreifftiau o 'Ystod o brofiadau' ar gyfer pob grŵp oedran.
- Nid oedd nifer fach o ymatebwyr yn hoffi'r term 'Ystod o brofiadau'.

Tynnodd nifer fach o sylwadau sylw at faterion ymarferol a allai godi mewn ysgolion sy'n addysgu dysgwyr mewn grwpiau blwyddyn cymysg; roedd yr ymatebwyr yn ofni y gallai neilltuo 'Ystod o brofiadau' ar gyfer pob grŵp blwyddyn greu anawsterau mewn sefyllfaoedd o'r fath. Un awgrym oedd defnyddio 'Ystod o brofiadau' cyffredin, yn hytrach nag un benodol ar gyfer bob blwyddyn, neu ddiffinio 'Ystod o brofiadau' y dylai dysgwyr gael mynediad atynt dros gyfnod o ddwy flynedd. Fodd bynnag, awgrymwyd y safbwynt cyferbyniol mewn cyflwyniadau eraill a oedd yn gweld budd eglur mewn amlinellu 'Ystod o brofiadau' ar gyfer bob blwyddyn gan eu bod yn teimlo bod hyn yn hybu cynnydd.

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno bod cynnydd/dilyniant clir rhwng pob grŵp oedran a rhwng pob cyfnod allweddol ar gyfer y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio? Os nad oes, awgrymwch opsiynau posibl eraill.**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 115 |
| Anghytuno | 22 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 25 |
| Dim ateb | 10 |
| N=172 | |

Roedd mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno y byddai'r cynigion yn arwain at gynnydd eglur rhwng pob grŵp blwyddyn. Fodd bynnag, roedd thema gref yn y sylwadau y dylid rhoi mwy o fanylion a bod angen enghreifftiau, yn enwedig gan y byddai'n effeithio ar y rhaglenni astudio. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y gellid dehongli rhywfaint o'r geiriad yn y ddogfen mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, teimlwyd nad oedd 'unrhyw gynnydd eglur mewn ymresymu rhifyddol' (a oedd yn faes lle'r oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod athrawon angen y mwyaf o gymorth).

Yn fwy eang, gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ar gynnydd o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 ac roedd nifer fach yn teimlo nad oedd y gwaith yn adeiladu'n ddigonol ar yr hyn a wnaed cynt. Roedd eraill yn teimlo bod yr hyn a amlinellwyd yn aml yn cynrychioli cam sylweddol, er enghraifft, o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3 mewn llythrennedd ac iaith (llai felly o ran rhifedd/mathemateg). Roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo bod diffyg eglurder o ran cynnydd o Gyfnodau Allweddol 2 i 3.

Ar yr un pryd, mynegodd nifer fach o ymatebwyr y safbwynt nad yw dysgu'n broses linol o reidrwydd ac y dylid cydnabod hyn wrth ddefnyddio datganiadau yn diffinio cynnydd disgwyliedig. Un awgrym oedd y dylid diffinio cynnydd mewn cyfnodau o ddwy flynedd.

Roedd y materion allweddol a amlygwyd yn y cyflwyniadau fel a ganlyn

**Egwyddorion**

- Dywedodd nifer fach o ymatebwyr na ddylai'r disgwyliadau o ran cynnydd fod yn rhy ragnodol; er enghraifft, nodwyd bod y ddogfen 'Defnyddio rhif' yn cynnwys 61 o feini prawf. Un awgrym oedd geirio'r ddogfen Saesneg fel hyn: 'Learners should study a variety of poetry and respond to writing in different ways .... Pupils could study poems by Welsh authors or other international poets, scripts used for film and TV, adverts and the language used within persuasion'; a dywedodd ymatebwr arall bod 'perygl, o ddarparu rhestrau trachywir o enghreifftiau, y gallai ysgolion weld hyn fel rhestr gyflawn a chyfyngu eu hunain i'r rhestr a pheidio â darparu ystod ehangach o brofiadau'.
- Mae angen cydnabod y dylai disgwyliadau o ran cynnydd fod yn realistig; er enghraifft, amlygodd un cyflwyniad yr angen i sicrhau eu bod yn briodol o ran datblygiad plentyn.
- Mae angen osgoi 'cynnydd gwneud', hynny yw, datganiadau a gyflwynwyd dim ond i ddangos bod cynnydd wedi ei wneud o un flwyddyn i'r nesaf. Er enghraifft, roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo bod hyn yn berthnasol i linyn data Blynyddoedd 5 i 6, ac mewn llafaredd gofynnodd un ymatebwr 'Sut fydd ymarferwyr yn gwahaniaethu rhwng plentyn yn siarad yn eglur yn y dosbarth meithrin a phlentyn yn siarad yn glywadwy yn y dosbarth Derbyn, neu rhwng plentyn yn defnyddio cyflythrennu ac odli ym Mlwyddyn 1 a phlentyn yn defnyddio cyflythrennu ac odli mewn amrywiaeth o gyd-destunau ym Mlwyddyn 2?'.
- Dywedodd nifer sylweddol o ymatebwyr y dylid symleiddio'r iaith.

**Cyflwyniad**

- Awgrymodd nifer o gyflwyniadau bod angen mwy o gysondeb o ran cynllun; dadleuwyd y dylid cyflwyno Rhaglenni Astudio Cyfnod Allweddol 2 yn yr un ffordd â Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen; roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod tystiolaeth o ailadrodd yn y datganiadau. Yn rhaglen astudio ysgrifennu Saesneg Blwyddyn 7, er enghraifft, ceir cyfeiriad at 'use a wide range of vocabulary imaginatively and precisely' gan symud i 'use a wide range of vocabulary to create effect', yng Nghyfnod Allweddol 3 . Roedd un ymatebwr yn teimlo bod 'ailadrodd neu ddiffyg cynnydd tybiedig yn y llinyn strategaeth ddarllen Cyfnod Allweddol 3' ac nid oedd un arall yn siŵr a oedd cynnydd yn Llinyn 1 y rhaglen astudio mathemateg.

**Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno bod y disgwyliadau ar gyfer pob blwyddyn yn briodol? Os nad ydych, eglurwch pam ac awgrymwch opsiynau posibl eraill.**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 89 |
| Anghytuno | 34 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 32 |
| Dim ateb | 17 |

| N=172 | |
|---|---|

Er bod mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r datganiad, roedd mwy na 60 o ymatebwyr naill ai'n anghytuno neu ddim yn siŵr.

Er bod nifer o ymatebwyr yn teimlo y gellid ateb y cwestiwn hwn yng ngoleuni profiad yn unig, roedd y sylwadau'n awgrymu bod llawer yn teimlo bod rhai o'r disgwyliadau'n heriol o'u cymharu â disgwyliadau presennol. Er enghraifft, nododd un ymatebwr 'enghreifftiau lle mae'r disgwyliadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn heriol iawn a bydd llawer o blant yn methu â bodloni'r disgwyliadau hyn, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Dylid rhoi ystyriaeth i symud disgwyliadau sy'n gysylltiedig â Chanlyniad 6 y Cyfnod Sylfaen a Lefel 5 y Cwricwlwm Cenedlaethol i'r grwpiau blwyddyn cynt gyda chanllawiau eglur y disgwylir i blant mwy galluog a thalentog gaffael sgiliau. Byddai hyn yn rhoi mwy o amser i ddatblygu sgiliau pob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen. Hefyd, mae rhaglen astudio mathemateg Cyfnod Allweddol 2 yn cyflwyno ffracsiynau'n rhy gynnar, pan efallai na fydd dysgwyr yn meddu ar y sgiliau gwybyddol sydd eu hangen i ymdopi â chysyniad o'r fath. Mae disgwyliad siarad Cymraeg a Saesneg ym Mlwyddyn 4 yn rhy anodd mewn rhai achosion, er enghraifft 'rhoi crynodeb o'r prif bwyntiau mewn gweithgaredd llafar'.

O ran iaith, roedd ymatebwr arall o'r farn nad oedd Strategaethau darllen, datganiad 2 yn gwneud synnwyr yng nghyd-destun y dosbarth Derbyn a bod y datganiad ym Mlwyddyn 1 yn rhy anodd. Roedd ymatebwr arall o'r farn bod gwahaniaeth mawr rhwng disgwyliadau Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, gan nodi 'Er enghraifft, mae'n nodi yn y ddogfen mathemateg y dylai plant Blwyddyn 1 'galw i gof haneri hyd at 10', pan, yn fy marn i, y gallent lwyddo i ddod o hyd i haneri hyd at 20 o leiaf. Mae hefyd yn nodi y dylai plant Blwyddyn 1 'adnabod a chreu llun neu siâp syml cymesur' ond nid yw'n cyfeirio at adnabod llinellau cymesuredd tan Flwyddyn 2'. Dadleuodd cyflwyniad arall, wrth ddefnyddio'r adran Sgiliau defnyddio data, y byddai sgiliau a restrwyd ar gyfer Blwyddyn 2 yn fwy priodol ym Mlwyddyn 1.

Cafwyd sylw hefyd am y disgwyliadau ar gyfer mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3. Awgrymwyd y byddai rhai cysyniadau'n cael eu cyflwyno'n ddiweddarach nag y maent ar hyn o bryd a fyddai'n rhoi llai o amser i ddysgwyr gyfarwyddo eu hunain â rhai o'r egwyddorion allweddol, gan roi'r argraff y gallai fod safonau'n gostwng yn hytrach na chodi.

Yn fwy cyffredinol, pwysleisiwyd bod dysgwyr yn datblygu ar wahanol gyflymder ac y dylid cydnabod hyn yn y ffordd mae'r cwricwlwm wedi ei strwythuro. Dylid hefyd ei gynllunio i gymryd yr holl ystod gallu i ystyriaeth.

Roedd y materion allweddol a amlygwyd yn y cyflwyniadau fel a ganlyn.

**Gweithrediad**

- Bod angen cymryd effaith amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ar gynnydd dysgwyr i ystyriaeth.
- Bod angen mwy o eglurder mewn rhai meysydd – o ran termau fel ‘trin data’ er enghraifft.
- Bod angen sicrhau bod dealltwriaeth eglur o’r disgwyliadau o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gyda disgwyliadau cywir ac eang wedi eu diffinio’n eglur.
- Y dylai disgwyliadau o ddysgwyr mwy galluog a thalentog eu galluogi i wireddu eu potensial, o bosibl trwy gyflwyno disgwyliadau o un flwyddyn i’r llall ar gyfer y grŵp hwnnw.
- Bod angen sicrhau bod disgwyliadau o un flwyddyn i’r llall yn cyd-fynd â’r disgwyliadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol.

**Cynnwys**

- Ystyriwyd bod y disgwyliadau a nodwyd ar gyfer mathemateg – ac eithrio Cyfnod Allweddol 3 fel y nodwyd cynt, a llafaredd yn briodol, ond nid y rhai ar gyfer darllen ac ysgrifennu.
- Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid cyflwyno rhai disgwyliadau yn gynharach, fel tebygolrwydd, ehangu cromfachau, hafaliaid cydamserol a rhoi pethau yn eu trefn.

**Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno bod y datganiadau ar gyfer ‘Ystod o brofiadau' yn briodol ac wedi'u geirio'n gywir? Os nad ydych, eglurwch pam ac awgrymwch opsiynau posibl eraill.**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 94 |
| Anghytuno | 26 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 29 |
| Dim ateb | 23 |
| N=172 | |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod yr ‘Ystod o brofiadau’ wedi eu cyflwyno a’u geirio’n gywir. Fodd bynnag, roedd mwy na 50 naill ai’n anghytuno neu ddim yn siŵr ac ni roddwyd ateb gan 20.

Roedd y sylwadau’n canolbwyntio ar yr iaith a’r termau a ddefnyddir yn y ddogfen. Roedd llawer yn teimlo y dylid symleiddio’r rhain gan eu bod yn rhy gyffredinol ac eang mewn rhai meysydd, yn enwedig yn yr adrannau’n ymwneud â’r Cyfnod Sylfaen. Awgrymwyd y dylid egluro termau fel ‘testunau deinamig’, a ‘genre’, ynghyd â rhai o’r termau mathemategol.

Roedd y materion allweddol a amlygwyd yn y cyflwyniadau fel a ganlyn.

**Gweithrediad**

- Roedd angen enghreifftiau a oedd yn dangos sut fyddai'r 'Ystod o brofiadau' yn hybu cynnydd dysgwyr.
- Ni ddylai ysgolion ystyried bod yr 'Ystod o brofiadau' a ddiffiniwyd yn cynrychioli'r cwbl y dylent fod yn ei wneud.

**Cynnwys**

- Roedd rhywfaint o ailadrodd yn y cynnwys, er enghraifft, nododd ymatebwr bod cynnwys fwy neu lai 'yr un fath ar gyfer llafaredd, darllen ac ysgrifennu' yn y Cyfnod Sylfaen, ac roedd un arall yn teimlo mai prin oedd y gwahaniaeth rhwng y gwahanol ddisgwyliadau o un flwyddyn i'r llall.
- Dylai dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gyda chanolbwynt ar gyfoeth naturiol, yr amgylchedd a chynaliadwyedd, fod yn elfen allweddol o'r 'Ystod o brofiadau'.
- Dylai'r 'Ystod o brofiadau' ei gwneud yn ofynnol bod amgylchedd cyfoethog o ran iaith yn cael ei hybu.
- Dylai'r 'Ystod o brofiadau' ystyried dealltwriaeth a blaengaredd.
- Dylai'r 'Ystod o brofiadau' gynnwys cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu creadigol.

**Cyffredinol**

- Dylai'r 'Ystod o brofiadau' roi mwy o ystyriaeth i'r ffaith bod ysgolion yng Nghymru yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

**Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno bod y sgiliau iawn yn cael eu pwysleisio? Ydych chi'n credu bod unrhyw sgiliau wedi'u hepgor?**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 96 |
| Anghytuno | 15 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 36 |
| Dim ateb | 25 |
| N=172 | |

Dim ond nifer fach o ymatebwyr nad oeddent yn credu bod y sgiliau cywir yn cael eu pwysleisio, ac roedd y mwyafrif yn cytuno â'r hyn a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori. Crynhowyd y sylwadau cyffredinol gefnogol gan y cyflwyniad a oedd yn teimlo bod yr 'Ystod o brofiadau' arfaethedig yn cynnig gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm llythrennedd cyfoethog ac amrywiol. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo y byddai hyn yn dod i'r amlwg dim ond ar ôl rhoi'r gofynion newydd ar waith. Cefnogwyd y cynnig o sefydlu gweithgor athrawon fel ffordd o fonitro ac argymell unrhyw newidiadau yn y dyfodol gan nifer fach o ymatebwyr.

Roedd teimlad ymhlith nifer o ymatebwyr bod y sgiliau wedi eu cynllunio mewn ffordd a oedd yn llawer rhy eang ac y dylid eu diffinio'n fwy eglur. Hefyd, dadleuodd nifer fach dros fwy o eglurder o ran yr hyn a olygir gan 'sgiliau estynedig'.

Roedd y materion allweddol a amlygwyd yn y cyflwyniadau fel a ganlyn.

**Cynnwys**

- Roedd un ymatebwr yn teimlo bod y sgiliau cywir yn cael eu pwysleisio, ond roedd eu hamseru a'u sefyllfa yn y cwricwlwm yn broblem, yn enwedig (ond nid yn unig) o ran mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Roedd yr ymatebwr o'r farn 'nad yw'r sgiliau cywir yn cael eu pwysleisio ar yr amser cywir'.
- Teimlwyd gan nifer fach bod perygl o 'orlwytho'r cwricwlwm'.
- Gwnaeth nifer fach yr achos dros gynnwys sgiliau cymdeithasol.
- Nodwyd yr angen i'r sgiliau disgwyliedig fod yn addas i'r oedran.
- Dylid cynnwys adrodd straeon ar lafar drwyddi draw ac ni ddylid ei gyfyngu i'r Cyfnod Sylfaen.
- Dylai fod mwy o bwyslais ar wrando yng Nghyfnod Allweddol 2, a dylid ystyried siarad a gwrando fel yr un sgil.
- Dylid pwysleisio sgiliau fel ysgrifennu a meddwl dychmygus.
- Dylid ystyried darllen a deall fel rhan hanfodol o strategaethau darllen.
- Roedd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth a chyfleoedd i ddysgu am gynaliadwyedd a'r amgylchedd yn sgiliau y dylid eu cynnwys.
- Dylai'r 'Ystod o brofiadau' gynnwys dysgu am faterion yn ymwneud â thrais domestig.
- Dylid cynnwys drama a chwarae rôl drwy'r blynyddoedd, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

**Gweithrediad**

- Roedd angen integreiddio'r sgiliau hyn gyda'r rhai y canolbwyntir arnynt yn y Cyfnod Sylfaen.

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn cwestiynu a ellid dysgu sgiliau fel 'mwynhau testun'. Roedd eraill yn cwestiynu a oedd angen cynnwys sgiliau TGCh ar gam mor gynnar yn y cwricwlwm.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno bod yr iaith a ddefnyddir yn y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio yn ddigon manwl? Os nad ydych, rhowch enghreifftiau penodol o'r newidiadau y mae angen eu gwneud.**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 82 |
| Anghytuno | 38 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 32 |
| Dim ateb | 20 |
| N=172 | |

Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno â’r datganiad, er i 70 nodi naill ai eu bod yn anghytuno neu nad oeddent yn siŵr.

Cyfeiriodd thema fwyaf cyffredin y cyflwyniadau at arddull, gan ddynodi y dylai cynnwys y ddogfen fod yn fwy eglur gyda diffiniadau o’r hyn a fwriadwyd. Cyfeiriwyd ganddynt at yr angen i esbonio’r hyn a olygir gan dermau fel ‘testun deinamig’ a ‘testun addas’, ac y dylid egluro ‘ymresymu mathemategol’. Awgrymwyd y byddai deunydd enghreifftiol yn helpu athrawon i ddeall y gofynion.

Awgrymodd yr ymatebwyr bod y ffordd y cyflwynir y wybodaeth yn golygu bod gormod o ffyrdd o’i dehongli. Un safbwynt oedd bod yr iaith yn ddigon cywir os mai diben y ddogfen oedd cynorthwyo gyda chynllunio’r cwricwlwm, ond nid os mai ei diben oedd gweithredu fel canllaw ar gyfer asesu.

**Cwestiwn 9: Pa gymorth/hyfforddiant ychwanegol fydd ei angen ar ymarferwyr mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog er mwyn gweithredu'r rhaglenni astudio newydd a datblygu sgiliau llythrennedd deuol cryf? Esboniwch eich ateb yn llawnach a rhowch syniad o lefel yr hyfforddiant y bydd ei angen.**

Prin oedd yr ymatebion a aeth i’r afael yn benodol â’r gofyniad yn y cwestiwn i esbonio a rhoi syniad o lefel yr hyfforddiant penodol sydd ei angen yn y sectorau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Tynnodd y sylwadau hynny a gyfeiriodd at yr agweddau hyn sylw at yr angen:

- i ddefnyddio gweithwyr cynorthwyol dwyieithog i gynorthwyo gyda’r datblygiad o sgiliau Cymraeg mewn lleoliadau nad ydynt yn ddwyieithog/cyfrwng Cymraeg
- am fwy o ddeunydd enghreifftiol i gynorthwyo ysgolion sy’n gweithio’n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Un o’r themâu cryfaf a amlygwyd yn yr ymatebion i’r cwestiwn hwn oedd bod angen hyfforddiant a chefnogaeth ar bob ysgol (nid ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn unig) os oeddent am roi’r gofynion newydd ar waith yn effeithiol ac yn unol â’r amserlen a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru. Amlygodd nifer fach o ymatebwyr anghenion ysgolion â nifer fawr o ddysgwyr y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol (SIY) iddynt o ran adnoddau a hyfforddiant. Cyfeiriodd llawer at broblemau yn

ymwneud â'r systemau cefnogaeth cyfredol (ar lefelau awdurdod lleol, rhanbarthol a Chymru gyfan) a'r angen am gydgysylltiad gwell rhwng y gwahanol randdeiliaid.

**Cwestiwn 10: Cynigir llunio amrywiaeth o ddatganiadau am addysgeg y Cyfnod Sylfaen ar gyfer pob Maes Dysgu i dynnu sylw at bwysigrwydd athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn? Os nad ydych, eglurwch pam ac awgrymwch opsiynau posibl eraill.**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 100 |
| Anghytuno | 8 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 23 |
| Dim ateb | 41 |
| N=172 | |

Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad hwn, er bod y gyfran na roddodd ateb yn gymharol uchel hefyd, wrth i lawer o ymatebwyr ddynodi nad oeddent yn teimlo'n gymwys i gynnig sylw ar fater mor benodol.

Yn gyffredinol, pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen i barchu'r athroniaeth unigryw y mae'r Cyfnod Sylfaen yn ei chynrychioli, ac y dylai hon fod yn sail i'r Meysydd Dysgu. Roeddent o'r farn ei bod yn werthfawr bod hyn yn cael ei ail-bwysleisio yn y ddogfen. Roedd sylw arall yn cydnabod gwerth y dull unigryw a fabwysiadir yn y Cyfnod Sylfaen, ond yn teimlo y dylai fod cyfeiriad penodol at yr angen i roi sylw i amgylchedd cyfoethog o ran iaith yn y datganiadau.

Roedd y materion allweddol a amlygwyd yn y cyflwyniadau fel a ganlyn.

**Asesu**

- Safbwynt bod rhai o'r trefniadau asesu a gyflwynwyd yn mynd yn groes i ethos y Cyfnod Sylfaen.

**Gweithrediad**

- Safbwynt na ddylai'r FfLlRh gael ei gyflwyno ar y cam Meithrin, er bod yr ymatebwyr yn cydnabod bod y sgiliau a gynigiwyd ar gyfer plant oedran Meithrin yn briodol.

**Cynnwys**

- Y dylai'r gweithgareddau awyr agored (a'r cyfleoedd i ddysgu am yr amgylchedd a materion cynaliadwyedd) barhau i fod yn rhan annatod o'r Cyfnod Sylfaen ac na ddylid mynd i'r afael â nhw trwy gyflawni gweithgareddau dan do y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

- Cafwyd sylw y gallai’r FfLlRh gael effaith ar ‘gael gwared’ ar yr elfen awyr agored a chwarae rhydd a oedd yn rhan annatod o’r Cyfnod Sylfaen.

**Athroniaeth**

- Roedd lleiafrif o ymatebwyr yn teimlo bod angen ailystyried athroniaeth y Cyfnod Sylfaen a chyflwyno addysgeg fwy ffurfiol yn raddol.
- Roedd yn bwysig nad oedd y dull a ddefnyddiwyd yn y Cyfnod Sylfaen yn arwain at ddisgwyliadau is o ran llythrennedd a rhifedd.

Un safbwynt oedd y dylai’r ddogfen gynnwys amlinelliad o’r addysgeg a’r athroniaeth a ddisgwylir ym mhob Cyfnod Allweddol, ac nid yn y Cyfnod Sylfaen yn unig.

**Cwestiwn 11: Cynigir gwneud y sgiliau ar gyfer y cyfnod Meithrin, nad ydynt yn gysylltiedig â'r Maes Dysgu, yn FfLlRh anstatudol ar gyfer y grŵp oedran hwn. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig uchod?**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 107 |
| Anghytuno | 8 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 23 |
| Dim ateb | 34 |
| N=172 | |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â’r cynnig hwn. Roedd nifer fach o sylwadau cefnogol wedi eu hychwanegu. Roedd y rhain yn cefnogi rhagor o waith i ddatblygu’r syniadau, a phwysleisiwyd bod angen i’r gofynion fod yn addas i oedran y plant. Cafwyd sylw oni bai fod maes sgiliau penodol wedi ei neilltuo’n ofyniad statudol na fyddai’n cael sylw mewn rhai lleoliadau. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylid defnyddio’r term ‘arfer da’ yn hytrach nag ‘anstatudol’.

**Cwestiwn 12: Er mwyn sicrhau bod lefelau cynnydd priodol yn cael eu cynnal ymhlith dysgwyr ag ADY (ar ôl ymgorffori'r sgiliau ar gyfer plant ifanc iawn – Meithrin – yn y FfLlRh), cynigir bod mân-addasiadau yn cael eu gwneud i ddatganiadau camau C a chamau B ar gyfer y cydran Rhifedd o’r FfLlRh. Ydych chi'n cytuno? Os nad ydych, awgrymwch opsiynau posibl eraill.**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 88 |
| Anghytuno | 4 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 38 |
| Dim ateb | 42 |
| N=172 | |

Roedd nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn yn llai nag ar gyfer rhai cwestiynau eraill, yn bennaf gan fod y nifer na atebodd yn uwch. Amlygodd y sylwadau yr angen am ragor o fanylion, er enghraifft yng nghyswllt y cwestiwn o'r hyn a olygir gan 'fân-addasiadau'. Roedd yr ymatebwyr o'r farn ei bod yn hanfodol nad oedd dysgwyr ag ADY yn cael eu dadysgogi. Dywedodd nifer fach yn benodol eu bod yn deall bod Ar Drywydd Dysgu wedi ei gynllunio i gefnogi dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, ac awgrymwyd y dylid cymryd gofal i bwysleisio na fyddai hyn yn diwallu anghenion pob dysgwr ag ADY.

Cafwyd sylwadau am y ffordd y byddai cynnydd a chyflawniadau dysgwyr ag ADY yn cael eu hadrodd. Yn benodol, dadleuwyd y byddai'n anghywir adrodd ar waith dysgwr ar oedran penodol, ac y dylid geirio adroddiadau o ran y lefel a gyrhaeddwyd. Pwysleisiodd y sylwadau hefyd y pwysigrwydd o sicrhau bod y sgiliau'n cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n hybu cynnydd.

**Cwestiwn 13: Yn y Meysydd Dysgu, rydym yn dilyn dull y FfLlRh drwy ddefnyddio datganiadau am ddisgwyliadau blynyddol ar draws y Cyfnod Sylfaen. Ai dyma'r dull iawn? Os nage, awgrymwch opsiwn posibl arall.**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 114 |
| Anghytuno | 7 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 12 |
| Dim ateb | 39 |
| N=172 | |

Roedd cefnogaeth gref i'r dull hwn a dim ond nifer fach oedd yn anghytuno neu nad oeddent yn siŵr. Mynegodd yr ymatebwyr safbwynt cryf y dylai adrodd fod yn seiliedig ar y cam y mae dysgwr wedi ei gyrraedd, yn hytrach na phennu disgwyliadau yn ôl oedran. Roeddent o'r farn y dylid defnyddio disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn rhan o asesiad o anghenion dysgwr, i nodi pa gymorth datblygiadol ychwanegol oedd ei angen, ac y gallai hyn hysbysu cynllunio cwricwlwm wedi ei deilwra i anghenion dysgwyr unigol. Cyfeiriodd y cyflwyniadau'n benodol at yr angen i osgoi 'paratoi plant i fethu'.

Roedd y materion allweddol a amlygwyd yn y cyflwyniadau fel a ganlyn.

- Yr angen am asesiad sylfaenol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar.
- Yr angen i sicrhau bod anghenion dysgwyr ag ADY yn cael eu cymryd i ystyriaeth.
- Yr angen i sicrhau cysondeb yn y datganiadau o ddisgwyliadau ym mhob cyfnod allweddol yn dilyn ymlaen o'r Cyfnod Sylfaen, er mwyn caniatáu parhad a chynnydd.
- Yr angen i aelodau staff addysgu gael eu hyfforddi yn y defnydd o'r wybodaeth fel eu bod yn gallu adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn gynt, ac i baratoi dysgwyr ar gyfer yr hyn a ddisgwylir ganddynt y flwyddyn ganlynol.

- Yr angen i hybu amgylchedd cyfoethog o ran iaith trwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

Pwysleisiodd y cyflwyniadau y byddai rhai dysgwyr bob amser yn gweithio'n uwch neu'n is nag unrhyw feincnod a osodir.

**Cwestiwn 14: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig yn eich poeni nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.**

Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn crynhoi neu'n ail-bwysleisio pwyntiau a wnaed eisoes yn yr ymatebion i'r cwestiynau cynharach. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol.

**Trefniadau asesu**

- Dylid creu dull asesiad sylfaenol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar.
- Dywedodd un cyflwyniad yn cynrychioli sylwadau tîm cynghori ei fod yn gwrthwynebu'n llwyr cael gwared ar lefelau yn y Gymraeg a'r Saesneg gan fod angen y rhain i sicrhau mynediad teg at y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr llai galluog ac i herio'r rhai sy'n gweithio ar y lefel uwch.
- Roedd un cyflwyniad yn cynrychioli safbwyntiau tîm cynghori yn teimlo bod angen cydnabod ym mathemateg Cyfnod Allweddol 3 bod y maes llafur yn cael ei osod gan y byrddau arholi yng Nghyfnod Allweddol 4. Nodwyd bod hyn yn ffurfio'r rhaglen astudio i bob pwrpas, a bod angen cydweithredu effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a CBAC.
- Dadleuodd cyflwyniad arall bod angen system asesu gyson ac integredig trwy gydol y cwricwlwm.

**Cynnwys**

- Mae angen sicrhau bod y rhaglenni astudio ar gyfer pynciau di-graidd yn cysylltu ag agweddau penodol ar y FfLlRh fel eu bod yn mapio'r sgiliau sy'n cael eu targedu o fewn y pwnc, cyn belled ag y bo 'gorlwytho cynnwys' yn cael ei osgoi.
- Dylai fod synergedd gwell rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. gwnaeth nifer lai bwynt tebyg o ran Cyfnodau Allweddol 2 a 3, er mwyn gwneud yn glir er enghraifft beth yw'r disgwyliadau o ran y sgiliau o'r Cyfnod Sylfaen trwy Gyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.
- Roedd angen cysylltu'r FfLlRh â Chyfnod Allweddol 4.
- Dylid egluro rhai diffiniadau allweddol.
- Mae 'gorlwytho'r cwricwlwm' yn her a dylid rhoi sylw i hyn.

## Cynnydd

- Roedd angen i athrawon fod yn fwy ymwybodol o'r hyn roedd dysgwyr wedi ei ddysgu eisoes a dylent sicrhau eu bod yn paratoi'r dysgwyr ar gyfer yr hyn y byddent yn ei ddysgu yn y blynyddoedd dilynol.

## Disgwyliadau

- Dylid diffinio disgwyliadau o un flwyddyn i'r llall fel bod continwwm o'r dosbarth Derbyn i ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 a thu hwnt.

## Dull cynhwysol

- Roedd yn bwysig cymryd anghenion dysgwyr ag ADY i ystyriaeth.

## Addysgeg

- Roedd angen defnyddio deunyddiau cefnogol yn ddeallus i helpu hysbysu a chynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr unigol.

## Hyfforddiant a chefnogaeth

- Dylai fod rhaglen hyfforddi a chefnogaeth barhaus i ymarferwyr o awdurdodau lleol/consortia rhanbarthol i gynorthwyo gyda'r gwaith o roi'r newidiadau ar waith ar lawr gwlad.

## Amlygwyd materion ymarferol hefyd.

- Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylid cynhyrchu fersiwn electronig o'r ddogfen (nid mewn fformat PDF) y gellid ei haddasu a'i defnyddio ar y cyd â dogfennau ysgolion eu hunain.
- Dylid cynhyrchu fersiynau copi caled o'r dogfennau hefyd.
- Roedd angen i ymarferwyr allu cynnwys codau yn y ddogfen gynllunio i adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir yn y FfLlRh.
- Dylid rhifo datganiadau er mwyn gwneud olrhain yn haws.
- Dylid defnyddio cod lliw ar gyfer cynnwys y ddogfen fel ei bod yn hawdd ei defnyddio.
- Dylai pennawd dogfen y Cyfnod Sylfaen gyfeirio at rifedd yn ogystal â mathemateg.
- Dylai pennawd y ddogfen Cyfnod Allweddol 2 gyfeirio at rifedd hefyd.
- Mae angen defnyddio'r symbolau ar gyfer sgiliau a ddefnyddir mewn dogfennau cyfredol – bydd y rhain yn gyfarwydd i ymarferwyr.

## Holiadur pobl ifanc

| | Ydy | Nac ydy | O bosib |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n meddwl bod ymestyn y FfLlRh i ddechrau o dair oed ac yna mynd ymlaen i ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn syniad da? | 5 | 2 | 3 |
| Ydych chi'n meddwl bod defnyddio'r 'continwwm' yn ffordd dda i fesur cynnydd? | 7 | 2 | 1 |
| Ydych chi'n meddwl bod y fathemateg rydyn ni wedi'i chynnwys yn cynnwys yr agweddau cywir? | 7 | 2 | 1 |
| Ydych chi'n meddwl y dylai mathemateg ym Mlynyddoedd 10 ac 11 gael ei hymestyn i helpu â'r arholiadau Safon Uwch Gyfrannol, fel sy'n cael ei amlinellu yn yr awgrymiadau? | 6 | 3 | 1 |
| Ydych chi'n meddwl ei fod yn syniad da alinio dysgu mewn Cymraeg a Saesneg fel bod y ddwy ohonyn nhw'n ymdrin â'r un pethau? | 4 | 3 | 3 |

Cyfeiriodd sylwadau gan y bobl ifanc at yr amseriad a'r angen i osgoi rhoi dysgwyr llai galluog dan anfantais i alinio mathemateg ym Mlynyddoedd 10 ac 11 gyda'r cwrs Safon UG. Pwysleisiodd sylw arall y gwahaniaethau rhwng Cymraeg a Saesneg fel rheswm i beidio ag alinio'r dysgu fel eu bod yn trafod yr un meysydd. Ar yr un pryd, pwysleisiwyd pwysigrwydd sgiliau bywyd.

## Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law, ac mae wedi eu hystyried yn llawn wrth baratoi fersiynau terfynol y Meysydd Dysgu newydd ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol, a'r rhaglenni astudio ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 i 4 ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg.

Hefyd, mae camau wedi eu cymryd, neu bydd camau'n cael eu cymryd, mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol y tynnwyd sylw atynt yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3

Gwnaed nifer o newidiadau i'r rhaglen astudio mewn ymateb i gwestiynau ynghylch priodoldeb yr her sydd ynghlwm â rhai o'r sgiliau, yn enwedig o ran Cyfnodau Allweddol 3 a 4.

## Trefniadau ar gyfer datblygiad

Bydd y canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn glir o ran y datblygiad priodol a ddisgwylir, yn ôl oedran a chyfnod, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

## Yr hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir

Mae'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RHGG) ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn cynnig cymorth uniongyrchol i helpu ysgolion ac athrawon i wella eu dulliau o addysgu llythrennedd a rhifedd. Byddwn yn edrych yn fanwl ar yr opsiynau ar gyfer y cymorth a gynigir o dan y RhGG, mewn ymateb i faterion a godwyd o ran yr angen i sicrhau bod yr hyfforddiant priodol ar gael i athrawon ac ymarferwyr.

## Egluro terminoleg

Bydd rhestrau o'r termau a ddefnyddir yn y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio hyn ar gael ar wefan Dysgu Cymru.

## Asesu

Er nad oedd y trefniadau asesu o fewn cwmpas yr ymgynghoriad presennol, mae sylwadau'r ymatebwyr ynghylch materion sy'n ymwneud ag asesu wedi eu hanfon at yr Athro Graham Donaldson, fel rhan o'r adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru.

## Atodiad: Rhestr lawn o'r ymatebwyr

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Kathryn Sage<br>Gillian Stanton<br>Ruth Jones<br>Marilyn Cullinan | St Illtyd's Roman Catholic Primary School, Merthyr Tudful<br>Peterson Super Ely Church in Wales Primary School, Caerdydd<br>St Paul's Church in Wales Primary School, Caerdydd<br>Croesty Primary School, Pen-y-Bont ar Ogwr |
| | All Saints Church in Wales Primary School, Caerdydd |
| Nicola Williams | Caerphilly Primary Headteachers' Forum |
| Claire Protheroe | PACEY Cymru |
| Richard Lashley | Ysgol Maesydderwen, Ystradgynlais |
| Ryan Morgan | Trelewis Primary School, Merthyr Tudful |
| Cyfarwyddwr (Dr Rosetta M Plummer) | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| S Wilcox and J Jones | Powys LEA and NSP |
| Julie Heap | Llanddulas PG |
| Bethan Clanfield<br>Caroline Marshall<br>Michelle Owen<br>Caroline Burnell<br>Elizabeth Saunders<br>Sue Davies<br>James Protheroe | Brynmenyn Primary School, Pen-y-Bont ar Ogwr<br>Hawthorn Primary School, Pontypridd<br>Cogan Primary School, Caerdydd<br>Gwaunmeisgyn Primary School, Beddau<br>All Saints Church in Wales, Primary School, Y Barri<br>Coety Primary School, Pen-y-Bont ar Ogwr<br>Darran Park Primary School, Ferndale |
| Nureen Allen<br>Julie Phillips<br>Catherine Treharne<br>Barbara Murphy | Pencoed Primary School, Pen-y-Bont ar Ogwr<br>Dinas Powys Infants School, Dinas Powys<br>St Mary's and St Patrick's School, Maesteg<br>St Robert's Catholic Primary School, Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Tîm Ymgynghorol Mathemateg a Rhifedd | Canolfan Addysg Llanbedr Pont Steffan |
| Beck Griffiths<br>Verity Jones<br>Sue Prosser | Ninian Park Primary School, Caerdydd<br>Coychurch Primary School, Caerdydd<br>Oldcastle Primary School, Peny-Bont ar Ogwr |
| Karen Arkle<br>Ameesa Najjar | Springwood Primary School, Caerdydd<br>Victoria Primary School, Penarth |
| K Rogers<br>K Olds<br>D Harrington<br>R Morgan<br>C Francis | Rumney Primary School, Caerdydd<br>Rumney Primary School, Caerdydd<br>St Patrick's Primary School, Caerdydd<br>Troedyrhiw Primary School, Merthyr Tudful<br>Pencaerau Primary School, Caerdydd |
| Lindsey Jones<br>Edd Sprayne | Ton Pentre Junior School, Ton Pentre<br>Treorchy Primary School, Treorci |
| Margaret Bowen | Ysgol y Ddwylan, Castell Newydd Emlyn |
| Mr M Morgan | Coed-y-Brain Primary School, Llanbradach |
| Judith Rees | Fitzalan High School, Caerdydd |
| Nerys Defis | Ysgol y Ddwylan, Castell Newydd Emlyn |
| Sue Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Claire Skidmore<br>Rhian Scott | St Albans Primary School, Caerdydd<br>St Philip Evans Primary School, Caerdydd |

| | |
|---|---|
| Sam Bean<br>Richard Burns | St Bernadette's Catholic Primary School, Caerdydd<br>Ynysowen Primary School, Merthyr Tudful |
| Karen Davies<br>Sheena Marsh<br>Claire Lloyd | Trerobart Primary School, Pontypridd<br>Herbert Thompson Primary School, Caerdydd<br>Heolgerrig Community School, Merthyr Tudful |
| Sheila Chapman | Cadwgan Playgroup, Old Colwyn |
| Jennine Gill | Little Inspirations Day Nursery, Pontyclun |
| | Cyn-ysgol |
| Susan Williams | Parkfields Playgroup, Yr Wyddgrug |
| Evelyne Rowlinson | Northop Hall Playgroup, Yr Wyddgrug |
| Jayne Millward | Sunbeams Playgroup, Gwernaffield, Sir y Fflint |
| Debra Ratcliffe | Holywell Childcare Ltd, Sir y Fflint |
| | Ysgol Feithrin Glan Conwy |
| | Llanddulas Playgroup, Conwy |
| Lynn Whitby | Little Rascals Playgroup, Connah's Quay, Sir y Fflint |
| Debbie Hall | Treuddyn under 5's Group, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint |
| E Hawkins/R Whitworth | Chirk Playgroup, Sir y Fflint |
| Sarah Owen<br>Samantha Jones<br>Catherine Shire<br>Lynne Neave | Croft Playgroup, Shotton, Sir y Fflint |
| Amanda Harper | The Burrows Nursery, Porthcawl |
| Wendy Williams | Y Bont Family Centre, Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Louise Lewis | Village Playgroup, Aberkenfig, Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Bethan Davies | Briton Ferry Childcare, Briton Ferry |
| Rachel Morgan | Little Inspirations Day Nursery, Pontyclun |
| Sharon Polcha | Cwm Golau Integrated Childcare Centre, Merthyr Tudful |
| | Honey Bees Playgroup, Pontypridd |
| | Bobol Bach Day Nursery, Conwy |
| Sian Ponting | Fun Start Playgroup, Caerdydd |
| Shau-Wai Sim | Shining Starts Nursery School, Caerdydd |
| Pauline Hoslop | Flying Start – Bro Morgannwg |
| Sue Davies | Flying Start – Bro Morgannwg |
| Lynette Davies | Flying Start – Bro Morgannwg |
| Deirdre Crimmins | Little People Play Group, Rhymni |
| Una Beynon | Dechrau'n Deg, Gwynedd |
| Rob Mills | Abracadabra Playgroup, Y Bontfaen |
| | School Lane Playgroup, Llandudno |
| S Cox | School Lane Playgroup, Llandudno |
| | Ysgol Feithrin Glan Conwy |
| Joanne Cueto | Waunfawr Primary School, Caerffili |
| M Goulding | |
| James Knight | |
| Kate Carr | NSPCC |
| Nicola Packham | Caerffili |
| Wil Davies | Athro ysgol gynradd – Cyfnod Allweddol 2 |
| Lesley Ravenscroft | Acumina |
| Lynn Bartlett | Hawarden Village Primary School, Hawarden, Sir y Fflint |

| | |
|---|---|
| Martyn Aldworth | Gwernyfed High School, Brycheiniog |
| Hugh Lansdown | Morriston Comprehensive School, Abertawe |
| Eurig Davies | |
| Bethan Evans | |
| Pete | Archbishop Rowan Williams Primary School, Portskewett |
| Angela Butler<br>Elan Davies<br>Gareth Ffowc Roberts<br>Haf Williams<br>Linda Mason<br>Liz Curson<br>Mark Brown<br>Meinir Lloyd Jones<br>Tracy Howarth | Joint Literacy and Numeracy Expert Advisory Panel |
| | NASUWT |
| | NASUWT |
| | Cyfarfod fforwm WPPA |
| | Llandudno |
| | Caerdydd – Digwyddiad ymgynghori |
| | Llanelli – Digwyddiad ymgynghori |
| Owain Morgan Lee | Athro ysgol dyslecsia |
| Nia Jones<br>Katie Jones<br>Delor James<br>Nia Gruffydd Williams<br>Lleucu Jones<br>Cerys Charles<br>Helen Perdikis<br>Sian Rees<br>Meinir Lewis Jones | Penaethiad Adrannau Cymraeg a Saesneg Ceredigion |
| Dr Sue Horner | |
| | Tîm Ymgynghorol ALI Ceredigion |
| | Estyn |
| Kevin Jeffrey | The Professional Literacy Company Ltd |
| Rachel Wallis | South West Wales Centre for Teacher Education |
| Allison Beynon | Awdurdod Lleol Castell Nedd Port Talbot |
| Jane Maggs | Colcot Primary School, Y Barri |
| Michelle Brake | Athrawes (Cyngor Sir Bwrdeistref Caerffili) |
| | Highway Playdays, Hawarden, Sir y Fflint<br>Sunrray Day Care Nursery, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint<br>Penyffordd Playgroup, Hawarden, Sir y Fflint<br>Penymynydd Playgroup, Hawarden, Sir y Fflint |
| Elin Wyn | National Deaf Children's Society (NDCS) Cymru |
| Andrew Thraves | GL Assessment |
| Yvonne Proctor<br>Justine Proctor<br>Claire Hardy | Ysgolion cynradd Caerdydd<br>Tredegarville Church in Wales Primary School, Caerdydd<br>Pen y Bryn Primary School, Caerdydd |
| Owen Hathway | NUT Cymru |
| Purnima Tanuku | Prif Gyfarwyddwr – National Day Nurseries Association |

| | |
|---|---|
| | Cymru |
| | Pontybrenin Primary School, Abertawe |
| Tim Britton | Adran Addysg Rhondda Cynon Taf |
| | Waunfawr Primary School, Caerffili |
| S Roberts | Ysgol Brynsaron, Llandysul, Sir Gaerfyrddin |
| Aled Davies | Ysgol Gymraeg Glan Cleddau, Hwlffordd |
| Tony Holloway | |
| Gordon Bell<br>Jenna Jones<br>Ruth Best<br>Sam Holleman<br>Suzanne Warren<br>Julia Carmichael | Joint Education Service, Central South Consortium |
| | Tîm rhifedd, Joint Education Service, Central South Consortium |
| Sarah Harwood | Alltwen Primary School, Abertawe |
| | Ysgol Gymraeg Casnewydd |
| Dr Christopher Howard | NAHT Cymru |
| Jonathan Cooper | Ysgol Gymraeg Abercynon |
| Alison Jones | Tîm Rhifedd EAS – Consortia De Ddwyrain Cymru |
| Rebecca Williams | UCAC |
| | Tîm y Cyfnod Sylfaen |
| Rona Jones | St Brigid’s School, Dinbych |
| Jackie Bryant | Machen Primary School, Caerffili |
| P E Bugler<br>D Thomas<br>Sue Watson<br>Cerys Caddick<br>Kim Methven | Willowbrook Primary School, Caerdydd<br><br>Gladstone Primary School, Caerdydd<br>Edwardsville Primary School, Merthyr Tudful<br>Gladstone Primary School, Caerdydd |
| Robert Jones | Coed y Lan Primary School, Pontypridd |
| Kerry Jones<br>Jan Mwsto<br>Nicola Griffiths | Tynyrheol Primary School, Pen-y-Bont ar Ogwr<br>Kitchener Primary School, Caerdydd<br>Porth Junior School, Porth |
| N Phillips<br>J Morris<br>Katy Holloway<br>Karen Anthony | Radnor Primary School, Caerdydd<br>St Nicholas Church in Wales Primary School<br>Llanilltud Fawr Primary School, Llantwit Major<br>St David’s Church in Wales Primary School, Y Bontfaen |
| Sarah Baher<br>Chris Jones<br>Sheila Broadley | Tonypandy Primary School, Tonypandy<br>Cilfynydd Primary School, Pontypridd<br>Ysgol Gwaelod y Garth, Caerdydd |
| Alyson James<br>Alison Morgan<br>Helen Wallerus<br>Alison Hughes<br>Liz Curtis<br>Emma Kear | Ysgol Yr Eos Primary School, Tonypandy<br>Pen Pych Community Primary School, Treorci<br>Parc Primary School, Cwmparc, Treorci<br>Trowbridge Primary School, Caerdydd<br>Glyncoed Primary School, Caerdydd<br>Williamstown Primary School, Tonypandy |
| Mr R Vaughan | Blaengwawr Primary School, Aberdar |
| K Phillips<br>A Davies | Murch Junior School, Dinas Powys<br>Aberllechau Primary School, Porth |

| | |
|---|---|
| K Williams<br>L Pearce<br>D Stevens<br>A Grosvenor | Maes yr Haul Primary School, Pen-y-Bont ar Ogwr<br>Bryn Celyn Primary School, Caerau<br>Trelai Primary School, Caerau, Caerdydd<br>Brynhafod Primary School |
| G Rose<br>A Johnson<br>C Phillips | Fairwater Primary School, Caerdydd<br>Moorland Primary School, Caerdydd |
| Angharad Prys Evans<br>Louise Taylor<br>Rhian Morgan<br>Sheila Jones<br>Rhiannon Hopkins<br>Ceri Jennings | Grangetown Primary School, Caerdydd<br>Ffaldau Primary School, Pen-y-Bont ar Ogwr<br>Pontyclun Primary School, Pontyclun<br>Glenboi Primary School, Mountain Ash<br>Llanhari Primary School, Llanharri<br>Nottage Primary School, Porthcawl |
| Sally<br>Joanne<br>Martin<br>Karen<br>Jan | |
| Claire Keeping<br>Stacey Farnham<br>Sian Matthews<br>Kayleigh Lawrence<br>Sian Cowley<br>Frances Willmott | |
| Iona Gregory<br>Kath Burmingham<br>Damon Gibson | Ysgolion cynradd |
| Sian Ward<br>Helen Beavan<br>Helen de Celis | Ysgol y Berllan Deg, Caerdydd<br>Gwauncelyn Primary School, Pontypridd<br>Newton Primary School, Porthcawl |
| Christine Mills | Darparwyr cyn-ysgol Cymru |
| Cara Kynancan/Megan Davies | Bright Beginnings Nursery, Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Gina Davies | Little Inspirations Day Nursery, Pontyclun |
| Nicola Shapely<br>Carol Van Rooyen | Coed Glas Primary School, Caerdydd<br>Mynydd Cynffig Infants School, Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Sue Painter a staff | Portfield School, Hwlffordd |
| Kingsley Kasosa | Nature Research Institute, Inc-University of Zambia |
| Maggie Roberts | Ladywell Green School, Y Drenewydd, Powys |
| Mr M Morgan | Fforwm Penaethiaid Ysgolion Cynradd Caerffili |
| Alyson Thomas | Tîm Llythrenned EDIS Castell Nedd Port Talbot |
| | Tîm y Cyfnod Sylfaen – Cyngor Sir y Fflint |
| Mrs Carol Adams | Clarbeston Road Playgroup, Hwlffordd |
| Daniel Jones | |
| Donna Jones | Consortia Canolog y De |
| Edward Jopling | Welshpool High School, Y Trallwng |
| Gary Morgan | Awdurdod Lleol Castell Nedd Port Talbot |
| | Tîm Saesneg a Llythrennedd EAS |
| Jonathan Blofeld Rees | |

| | |
|---|---|
| Louise Evans | Gwaunfarren Primary School, Merthyr Tudful |
| Mrs L J Lewis | Penllwyn Primary, Caerffili |